## Mair, mam Iesu, a mamau y milwyr a gollwyd mewn Rhyfeloedd

Gwn am wroniaeth y Fam roddodd Fab i'r byd
ac a gafodd Waredwr yn ôl.
Plygaf gerbron yr wroniaeth hon.
Llithraf i'r cartrefi trist; nid oes eisiau sôn am Wladgarwch yno.
Dengys y fam ddarlun o'i hanwylyd; syllaf i'w wyneb heb wrido; ni chymhellais y bachgen i'r gâd.
Tawel fo ei hun mewn estron dir.

Daw llais yr Athro atom eto, – gwyn ei fyd a'i hedwyn:
'Na ladd,' 'Cerwch eich gelynion,' 'Dod dy gleddyf yn y wain'.
Gwell gennyf Ei lais na holl leisiau'r byd; bu heb le i roddi Ei ben i lawr, – nid oes le heddyw.
Ni chlwyfwyd calon mam erioed gan Hwn.
Af a safaf gyda'r fam wrth ei gwaith; diddanaf hi ar yr aelwyd; hi a ddywed i mi ofidiau ei chalon.
Mor gartrefol y wisg, mor syml yr iaith, ond y mae'r galon yn gariad i gyd.
'Hi a garodd yn fawr'; y mae drysau Cariad a Heddwch yn agored iddi.
Edrychaf i wynebau mamau, yno gwelaf ôl y ddrycin fawr;
Yno gwelaf ddagrau na ellir eu sychu byth mwy.

***T. E. Nicholas***